

## Kyle Greenland *Heolddu Comprehensive School, EESW Student of the Year Runner-up 2016*

Kyle Greenland, from Heolddu Comprehensive School, was a Runner-up in the EESW Student of the Year 2016 competition. His team was set a brief to design a water turbine for Continental Tyres UK to utilise wastewater run-off from their factory. The team worked with engineers during EESW workshops held at the University of South Wales to design and create their turbine using 3D printers.



Kyle Greenland (third from left) at the EESW Student of the Year Award 2016 event

Kyle described the experience as an enriching process and explained how he benefited from the project.

*“Undertaking the project alongside my other A-levels enabled me to develop my time management and organisation skills. The project also gave me the chance to improve my teamwork skills by working with students from my school that I may have never had the opportunity to interact with before.”*

Kyle feels these skills have been invaluable to him as he has progressed through academia. When explaining how he has drawn on these skills, he told us, *“The project gave me a key insight into academia and the use of science to solve real-world problems. (It) highlighted the innovation that can be achieved with close collaboration between academia and industry.”*



*Kyle Greenland studying at Imperial College London*

*Photo taken by Thomas Angus, Imperial College London*

After completing his A-levels, Kyle went on to study for a BSc in Medical Biosciences at Imperial College London, graduating with a First-Class Honours degree. He is now pursuing a masters in Cancer Biology also at Imperial College London. In the future, Kyle hopes to pursue a career in research and is particularly interested in investigating the genetics underpinning cancer drug resistance.



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**  
**European Social Fund**

## Kyle Greenland Ysgol Gyfun Heolddu, Ail yng Nghystadleuaeth Myfyriwr y Flwyddyn EESW 2016

Roedd Kyle Greenland, o Ysgol Gyfun Heolddu, yn ail yng nghystadleuaeth Myfyriwr y Flwyddyn EESW 2016. Y dasg a osodwyd ar gyfer ei dîm oedd dylunio tyrbîn dŵr ar gyfer Continental Tyres UK er mwyn i'r cwmni ddefnyddio dŵr ffo gwastraff o'r ffatri. Gweithiodd y tîm gyda pheirianwyr yn ystod gweithdai EESW a gynhaliwyd ym Mhrifysgol De Cymru er mwyn dylunio a chreu tyrbîn gan ddefnyddio peiriannau argraffu 3D.



Kyle Greenland (trydydd o'r chwith) yn ystod digwyddiad Gwobrau Myfyriwr y Flwyddyn EESW 2016

Dyweddodd Kyle fod y profiad o'r broses wedi'i gyfoethogi, ac eglurodd fanteision y prosiect iddo.

*"Trwy gymryd rhan yn y prosiect wrth astudio ar gyfer fy mhynciau Safon Uwch eraill, fe ges i gyfle i ddatblygu fy sgiliau rheoli amser a'm sgiliau trefnu. Roedd y prosiect yn gyfle i mi wella fy sgiliau gwaith tîm hefyd drwy weithio gyda myfyrwyr o'm hysgol nad oeddwn wedi cael y cyfle i ryngweithio â nhw o'r blaen."*

Mae Kyle yn teimlo bod y sgiliau hyn wedi bod yn hollbwysig iddo wrth gamu ymlaen drwy'r byd academiaidd. Wrth egluro sut y mae wedi defnyddio'r sgiliau hyn, meddai, *"Diolch i'r prosiect fe ges i gipolwg allweddol ar y byd academiaidd ac ar ddefnyddio gwyddoniaeth i ddatrys problemau'r byd go iawn. Tynnodd fy sylw at y gwaith arloesol sy'n gallu cael ei wneud wrth i'r byd academiaidd a diwydiant gydweithio'n agos."*



*Kyle Greenland yn astudio yng Ngholeg Imperial Llundain  
Tynnwyd y llun gan Thomas Angus, Coleg Imperial Llundain*

Ar ôl cwblhau ei astudiaethau Safon Uwch, fe aeth Kyle ymlaen i astudio ar gyfer BSc mewn Biowyddorau Meddygol yng Ngholeg Imperial Llundain, gan raddio gyda gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf. Ar hyn o bryd mae'n astudio ar gyfer gradd meistr mewn Bioleg Canser yng Ngholeg Imperial Llundain. Yn y dyfodol, mae Kyle yn gobeithio dilyn gyrfa ym maes ymchwil ac mae ganddo ddiddordeb penodol mewn ymchwilio i'r eneteg sy'n sylfaen i ymwrthedd i gyffuriau cancer.



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop  
European Social Fund**